

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 14eg o Dachwedd 2017

1. **Preseanol:** Gwyndaf Roberts (Cadair), OP Huws – Llanllyfni; Barry Bracegirdle, Justin Davies – Penygroes; Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones, D Martin Williams – Talysarn; Dafydd Thomas – Nebo; Craig ab Iago a Judith Humphreys – Cynghorwyr Sir / **Ymddiheuriadau:** Ffion Jones – Nantlle; Hefina MW Roberts – Llanllyfni; Dylan Herbert a Nerys Williams – Penygroes. Judith wedi ymddiheuro y byddai yn cyrraedd yn hwyr.
2. **Cyfethol** Enwebiad. Fe'n hysbwyd nad oedd Llyr Williams â gyfethyowyd yn parhau i fod yn awyddus ymuno efo'r Cyngor Cymuned. OP Huws yn cynnig enw Erfyl Williams, 14 Bro Llwyndu, Penygroes i fod yn aelod dros Benygroes. Pawb yn cytuno. Y Clerc i gysylltu gydag ef i gadarnhau a'i wahodd i'n cyfarfod nesaf.
3. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Hydref.** Barry yn cynnig cywirdeb a Sharon yn eilio.
5. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Maes y Mor – cymeradwywyd cynnwys y llythyr i drigolion Maes y Mor parthed torri gwair Cwtin. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo cwmni yswiriant y Cyngor i gadarnhau'r sefyllfa yswiriant ar y cae; Parcio Penygroes – roedd y Clerc wedi gyrru'r cais ymlaen i Gyngor Gwynedd. Justin wedi ymweld a'r safle; Llywodraethwyr Ysgol – fe'n hysbwyd nad oes cynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned i fod ar fwrdd llywodraethol Ysgol Dyffryn Nantlle. Mynegwyd pryder nad oedd yr ysgol wedi cysylltu yn uniongyrchol yn ol efo'r Cyngor Cymuned i'n hysbysu; Ymateb diogelwch ffordd Llanllyfni (CG a Heddlu) – Cyngor Gwynedd yn datgan fod cerbydau yn parcio ar y ffordd yn cael effaith o arafu traffic. Yr Heddlu yn cadw golwg ar y sefyllfa ac wedi trafod efo'r trigolion; Cyfarfod Co-op – Judith wedi trefnu.
6. **Taflen Ariannol a Chyllid.** Cadarnhawyd cywirdeb y daflen ariannol, ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd.
7. **Cynghorwyr Sir.** Cafwyd adroddiad ar lafar gan Craig (Dorothea, cae chwarae Llanllyfni, y Quarry, ymddygiad gwrthgymdeithasol, asesiadau tai Maes Castell). Gwyndaf yn mynegi pryder am doriadau Cyngor Gwynedd yn y maes clybiau ieuenctid. Rhoddwyd gwahoddiad i Craig roi cyflwyniad i'r Cyngor o'r model newydd gwasanaeth ieuenctid, ac hefyd beth sydd ar y gorwelion, yng nghyfarfod nesaf y Cyngor fis Rhagfyr. Diolchwyd Craig am ei gyfranogiad i'r cyfarfod heno. Judith yn cyrraedd (yn dilyn eitem 9) Derbyniwyd adroddiad gan Judith ar lafar ac yn ysgrifenedig. Cymeradwywyd llythyr at drigolion Maes y Mor, a llythyr i drigolion y pentref parthed parcio ystyrion. Cafwyd trafodaeth am y lloches bws dros y ffordd i garej Poveys, ac awgrymwyd fod y mater yn cael ei godi yn y cyfarfod gyda swyddogion y Co-op.
8. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio.** Adroddwyd yn ol gan OP Huws fod Alun Wyn Jones wedi ei benodi yn hwylusydd tendr mynwentydd a llwybrau. Pawb yn hapus efo'r trefniadau.
9. **Cynllunio.** C17/0973/22/MW – Taldrwst Talysarn. Llythyr gan JG Williams. Y Cyngor yn bryderus am y loriau fydd yn teithio yn ol ac ymlaen mewn perthynas a'r gwaith sy'n gysylltiedig i'r cais. Pryder am gynydd traffig ar hyd lon Ddwr Llanllyfni. Gofyn i'r adran Priffyrdd edrych ar gyflwr y lon a gwneud asesiad ar y dechrau ac ar y diwedd. Pryder am ddiogelwch ar lon Ddwr hefyd. Angen rhoi amodau megis gorchuddio'r wageni ac olwyn-olchi fel nad oes llechi yn disgyn ar y lon. Cysylltu efo Adran Llwybrau am llwybr 64 a phryderon Mr Williams. C17/1080/22/RC – Seibiant, Ffordd Rhiwlas, Talysarn – dileu amod 106. Penderfyniad y Cyngor oedd gwrthwynebu – perygl o osod cynsail i geisiadau eraill. (Judith yn cyrraedd y cyfarfod – cofnod 7)
10. **Gohebiaeth.**
*Cyngor Gwynedd: Ymatebion priffyrdd
Darllenwyd ymatebion y Cyngor.
*Arall
*Un Llais :
-Grant Clystyru (gwybodaeth bellach) – OP yn datgan ei fod wedi gyrru ffurflen gais a'i fod wedi bod ar y ffon yn holi, ond mae'n ymddangos nad yw'r meini prawf yn cael eu cyflawni.
Gyrrwyd copi o'r ohebiaeth ganlynol i'r Cynghorwyr yn ystod y mis. Ni roddwyd unrhyw sylwadau pellach.
-Taliadau Claddu ar Gyfer Plant
-Comisiwn Ffiniau Cymru
-Aelod Pwyllgor Archwilio a Risg Comisiynydd y Gymraeg

- Rheoliadau Cyllid Cyfalaf
- Dulliau Gweithredu Lleihau Tlodi
- Bwletin Un Llais
- Cynllun Annog Cydweithio â Llywodraeth Leol.
- Canolfan Polisi Cyhoeddus – Cyhoeddiad.
- Gwobrau Cenedlaethol Arfer Aroloesol.
- Adolygiad o'r sector Cynhgoau Cymuned – Ymgynghori – OP Huws yn awyddus i fynychu.
- Dyfodol Gwaith yng Nghymru.
- Coflyfr yr Ombwdsman.
- Fflandrys Symposiwm ar y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Gwasanaeth Ambiwlans – gwybodaeth 20/11.
- NHS Apwyntiadau.

*Llythyr gan Jean Laurina – mynwent St Rhedyw – darllenwyd y llythyr. Penderfynwyd fod cynghorwyr Llanllyfni a Harry Wyn yn ymweld a'r fynwent i edrych, ac adrodd yn ol. Asesir cyflwr mynwentydd y Cyngor yn gyson, ac fe adroddir unrhyw ddiffygion sy'n achosi pryder i'r Cyngor er mwyn gweithredu. Nodir yng nghofnodion y Cyngor.

*Parc Cenedlaethol Eryri – coed afal. Holi ysgolion lleol os ydynt yn awyddus i swyddog o'r Parc Cenedlaethol ddod i helpu efo plannu, a rhoi sgwrs i'r plant.

*Planning Aid Wales – hyfforddiant 28/11.

*Antur Nantlle – gwahoddiad cyfarfod 20/11. Cysylltu efo Antur Nantlle i gadarnhau.

11. **Goleuadau Nadolig** Cysyllt wedi ei wneud gyda chontractwyr trydanol, a threfniadau mewn lle am eleni. Trafod fis Ionawr – angen adolygu'r gytundeb goleuadau Nadolig a cheisio tendro'r gwaith am y cyfnod nesaf.

12. **Dorothea** – diweddariad. Y cwmni yn awyddus cael cyfarfod unwaith eto gyda chynghorwyr Talysarn a Nantlle – gofyn wrthyn nhw gynnig dau neu dri dyddiad a lleoliad.

13. **Parcio Llanllyfni** Yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd, y bwriad yw cysylltu efo trigolion Llanllyfni. Ymholiadau posib – a oes arian i ymestyn y safle parcio ar lon Ddwr? Tir Quarrymans Arms? Clirio grasscrete cae chwarae?

14. **Eglwys Talysarn a'r cofebion. Cerrig Dorothea. Cofeb R Williams Parry.** Cynnig gan Ganolfan Talysarn i ail-leoli'r cofebion Dorothea yn y Ganolfan, a holi am Ganolfan Hanes hefyd – cyfle i ddangos treftadaeth y Dyffryn. Angen cyfarfod bychan cyntaf i roi cyfle i bobl Talysarn gyfrannu a rhoi barn (OPH).

15. **Cofeb Penyrorsedd.** Ymateb Un Llais cyfrif banc yn awgrymu i ni gysylltu efo'r Comisiwn Elusennau am arweiniad. Cofeb R Williams Parry – nodir fod y gofeb hon yn arwyddocaol yn genedlaethol.

16. **Archwilydd Mewnol.** Ni dderbyniwyd ymateb i'n llythyr hyd yma.

17. Materion Pentrefi Talysarn – Hen Lon (Penyffron i Penygroes) angen torri coed; Bysiau ddim yn dod bob tro ar hyd yr hen lon, a dim ond ar hyd y lon newydd – rhaid glynnu at yr amserlen – ysgrifennu at y cwmni bws a Chyngor Gwynedd. Gofyn am arwydd baw cwn ger Sea View Terrace, Talysarn. **Penygroes** Lamp ger y Chinese ar Stryd yr Wyddfa i ffwrdd – cysylltu efo Colin Worth, Cyngor Gwynedd; Polyn wrth rhif 2 Trem yr Wyddfa yn rhydd ac angen ei adnewyddu (arwydd Heddlu arno fo a Pant Du) – angen polyn newydd; grid metal yn symud ac yn beryglus ar y palmant tu allan i'r llyfrgell. Y Cyngor yn ddiolchgar iawn i Iolo a Twm (Roberts ac Owen) am lanhau'r gof-golofn ym Mhenygroes cyn Sul y Cofio. Gyrru gair o ddiolch. **Llanllyfni** Cwynion fod canghennau coeden bythwyrdd yn tyfu allan dros y palmant. Canghennau yn tyfu drosodd i'r lon yn Lon Ddwr o tir y Felin. Dail yn blocio gwliau yn y pentref. Pryder am ddiogelwch ar y ffordd ger Ger y Llan, yn enwedig os daw cynydd mewn trafniadaeth lorïau o Lon Ddwr efo gwaith Taldrwst (cais cynllunio) – mae plant wedi'w gweld yn chwarae yn y lon – gofyn i Gyngor Gwynedd am railings.

18. Llwybrau a Mynwentydd. Ymateb Llwybr Boncen Eithin; Ymateb cwyn llwybrau. Darllenwyd ymatebion Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd llythyr gan 'Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru' yn galw ar gefnogaeth i greu cysylltiadau i wella cyflwr ffyrdd ddi-ddosbarth, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngiedig. Penderfynwyd y dyild cefnogi i gael rhwydwaith i fynd i lefydd ar wahan i lwybrau cyhoeddus.

Arolwg Cerrig Beddi Cafwyd adroddiad gan Harry Wyn Owen fod 20 o gerrig rhydd ym mynwent St Rhedyw. Penderfynwyd rhoi stanciau tu ol i'r cerrig er mwyn eu diogelu.

19. Materion yn ymwed a'r heddlu. Dim i'w adrodd.

20. Materion ariannol. Ffon/Rhyngwyd Clerc £25; Derbynebaw Clerc £43.60; Apel Pabi £58. Capel Soar £260; Gringo Designs £40; Antur Nantlle £144. Cymeradwyo.

21. **Ceisiadau am arian** - ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau yn ystod y mis.